Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu
DYDDIAD:	30.6.22
LLEOLIAD:	Siambr y Cyngor, Penmorfa
TEITL:	Diweddariad ar Ysgol Ardal newydd yn Nyffryn Aeron
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I ddiweddaru aelodau am ddatblygiadau tuag at agor ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron
RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Er gwybodaeth

CEFNDIR:

Mae adeiladu ysgol gynradd newydd yn ardal Dyffryn Aeron wedi'i gytuno fel rhan o raglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru. Bellach, fe elwir y rhaglen honno yn Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
Bydd yr ysgol ar gyfer disgyblion oed 3-11 ac yn gwasanaethu ardaloedd Felin-fach, Ciliau Aeron, Dihewyd a Chilcennin.
Ym mis Tachwedd 2021 pwrcaswyd tir addas ar gyfer yr adeilad, ym mhentref Felin-fach.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:
Cymeradwywyd yr Achos Amlinellol Strategol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021 am y gost adeiladu amcangyfrifedig o £10,932,950. Cyhoeddwyd y tendr i benodi ymgynghorwyr i ddatblygu'r prosiect ym mis Chwefror 2022 ac yn dilyn proses faith, penodwyd SPP ym mis Ebrill 2022. Mae SPP yn Ymgynghorwyr Rheoli Prosiectau a Mesur Meintiau, ac maent yn gyfrifol am gyflawni'r prosiect yn dilyn Proses Gaffael Dau Gam. Penodwyd Ymgynghorwyr BREEAM ym mis Ebrill 2022
Cyhoeddwyd tendr y Contractwr ar Fai'r 16eg 2022 ac yn dilyn sawl cais i ymestyn y cyfnod tendro, pennwyd dyddiad cau diwygiedig y tendr ar gyfer Mehefin 20fed 2022.
Yn dilyn proses gwerthuso'r tendr, dylid penodi contractwr yn gynnar ym mis Gorffennaf 2022. Mae cynlluniau ar gyfer yr ysgol i'w cytuno a'u cymeradwyo erbyn Tachwedd/Rhagfyr 2022. Bwriedir cytuno ar swm y Contract erbyn Ionawr / Chwefror 2023, a bydd Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Terfynol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo cyn gynted ag y cytunir ar swm y contract. Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer swm y contract ar yr un pryd.
Rhagwelir y bydd gwaith yn dechrau ar y safle Mawrth/Ebrill 2023 gan dybio bod yr holl brosesau'n rhedeg yn esmwyth ac wedi'u hamserlennu i'w cwblhau Gorffennaf/Awst 2024. Mae Corff Llywodraethu Cysgodol ar gyfer yr ysgol newydd yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	***Crynodeb:***
	Hirdymor:
	Cydweithio:
	Cynnwys:
	Atal:
	Integreiddio:

ARGYMHELLION:

I dderbyn diweddariad ar y datblygiadau tuag at agor ysgol ardal newydd yn ardal Dyffryn Aeron

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Sicrhau gwybodaeth gyfredol am y datblygiadau

Enw Cyswllt:	Nia James
Swydd:	Rheolwr Corfforaethol Adnoddau Dynol
Dyddiad yr Adroddiad:	7.6.22
Acronymau:	

BREEAM : Building Research Establishment Environmental Assessment Method